
Rhif 209 HYDREF - TACHWEDD 2017

AM DDIM

# Gwyliedydd

Synod Cymru


CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD



# NEGES BWYSIG


## I HOLL AELODAU'R EGLWYS FETHODISTAIDD






















### Edrych i'r dyfodol

Os na fyddwch yn darllen dim byd arall yn y rhifyn yma, darllenwch hwn!

Y llynedd, gofynnwyd i **bawb ohonom feddwl am ddyfodol Synod Cymru**.

### Holi ein barn

Cafodd pobl gyfle i fynegi barn, yn y Cyfarfodydd Ardal yn ystod hydref 2016, am ein cryfderau a'n gwendidau, beth yw'r bygythiadau amlwg a pha gyfleoedd sydd at y dyfodol. Wrth gwrs, nid pawb sy'n mynd i Gyfarfod Ardal, Cylchdaith neu Synod! Apeliwyd am ymateb hefyd drwy gyfrwng y Gwyliedydd – y mae pob aelod wrth gwrs yn ei gael am ddim! – a gwefan Synod Cymru.

### Ceisio gwasanaethu Duw yn well

Erbyn cynnal y Synod blynyddol ym mis Ebrill eleni, roedd ein Pwyllgor Gwaith wedi ystyried yr holl ymatebion a ddaeth i law yn ofalus a gweddigar. O geisio dadansoddi popeth a ddywedwyd, roedd yn ymddangos bod chwe thema yn dod i'r amlwg. Roedd y rhain yn cynrychioli agweddau ar ein tystiolaeth lle gallwn geisio gwasanaethu Duw yn well.

### Meddwl am y camau nesaf

Cytunodd y Synod y byddai'n syniad da sefydlu chwe grŵp, un i bob thema, er mwyn meddwl gyda'n gilydd am y camau nesaf. Roedd **y gwahoddiad yn un agored, i ymuno ag un neu fwy o'r grwpiau hyn**, ond ychydig iawn o bobl wnaeth ymateb. Y gobaith oedd y byddai pobl wedi cynnig eu hunain erbyn y dyddiad a nodwyd (gweler rhifyn Mehefin-Gorffennaf y *Gwyliedydd*) fel y gallai'r Pwyllgor Polisi ym mis Gorffennaf drafod y ffordd ymlaen gan ddilyn y trywydd hwn.

### Gweddïo

Ar dudalen 13 yn y rhifyn hwn, mae'r Parchg. Jennie Hurd yn crynhoi'r hanes; yn amlinellu'r drafodaeth a gafwyd yn y Pwyllgor Polisi; yn gofyn beth allwn ni ei wneud yn awr. Mae **angen meddwl eto am y ffordd ymlaen** a cheisio arweiniad Duw. Ni allwn aros yn ein hunfan. Beth yw ewyllys Duw ar ein cyfer? A gawn ni i gyd weddïo dros aelodau'r Pwyllgor Gwaith wrth iddynt fynd ymlaen mewn ffydd. A chofiwn fod gennym **i gyd** ran i'w chwarae yn hyn oll.







**Gwyliedydd**

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU

YR EGLWYS FETHODISTAIDD

Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 209**

**HYDREF - TACHWEDD 2017**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy'r post £4.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

***Golygyddion:***

**ROBIN JONES**

LLYS ALAW, 18 STÂD ERYRI

BETHEL, CAERNARFON

GWYNEDD LL55 1BX

Ffôn: 01248 670140

symudol: 07780869907

e-bost:

robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**

CRUD YR AWEL

LÔN NEWYDD COETMOR

BETHESDA, GWYNEDD LL57 3DT

Ffôn 01248 605365

e-bost:

ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

***Croeso i chi anfon at Robin neu Ffion***

**DYDDIAD CAU:**
**1 TACHWEDD, 2017**

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i **"Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"**

Argraffwyr:
Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286) 672018

## GWEITHREDU DROS BLANT

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion, sydd wedi dod i law yn ystod y misoedd diwethaf, tuag at Gweithredu dros Blant:

| | |
|---|---|
| Salem, Pentre Helygain | £35.00 |
| Ebeneser, Treuddyn | £20.00 |
| Mrs Dora Jones | £5.00 |
| Bethel (Annibynwyr), Yr Wyddgrug | £250.00 |
| Salem, Rhyd-y-foel | £150.00 |
| Pendref, Yr Wyddgrug | £50.00 |
| St Paul, Aberystwyth | £42.00 |
| Er cof am Nora Coward (Peniel, Llanelwy) gan ei mab Geoffrey a Margaret Coward | £600.00 |
| Blwch Casglu Eisteddfod Ynys Môn | £4.00 |
| Eglwys Unedig Colwyn (Horeb) | £150.00 |

**Anfonwyd cyfanswm o £1,306.00 yn enw Synod Cymru**

*Gyda diolch am bob cyfraniad,*
*Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan*

# O'R GADAIR
# AR Y GOROR

**gan y Parchedig JENNIFER HURD**

Yn achlysurol iawn, byddaf yn cael cais i adolygu llyfr ar gyfer rhyw gyhoeddiad neu'i gilydd. Mae'n rhywbeth rwyf yn ei fwynhau – ac yn ffordd dda o dderbyn llyfrau yn rhad ac am ddim! Yn ddiweddar, gofynnwyd imi ysgrifennu adolygiad o lyfr a gyhoeddwyd eleni fel rhan o ddathliadau tri chan mlwyddiant genedigaeth William Williams, Pantycelyn, sef *Flame in the Mountains* (HA Hodges, gol. E Wyn James, Y Lolfa, 2017). Arwydd o bwysigrwydd y llyfr hwn oedd ei amlygrwydd ar stondinau llyfrau yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn eleni, er mai cyhoeddiad Saesneg ydyw. Eglwyswr oedd Hodges, a ddysgodd yr iaith Gymraeg er mwyn darllen emynau Pantycelyn ac Ann Griffiths. Ond roedd ei wreiddiau yn yr Eglwys Fethodistaidd, ac efallai mai dyna lle cafodd ei gariad at emynau – wedi'r cwbl, yng ngeiriau rhagymadrodd yr hen *Methodist Hymnbook* (1933), "Methodism was born in song". Mae'n llyfr sy'n werth ei ddarllen, ac rwy'n teimlo y bydd yn glasur cyn bo hir. Casgliad o draethodau ydyw, gyda chyfieithiadau o emynau William Williams ac Ann Griffiths ynghyd â nodiadau defnyddiol iawn ar yr emynau. Os bydd yn agor llygaid mwy o bobl i gyfoeth traddodiad emynyddol Cymru, bydd hynny'n wych. Os bydd yn rhoi hwb i rai geisio dysgu Cymraeg er mwyn darllen emynau Pantycelyn, fel HA Hodges, gwell fyth!

Mae darllen y llyfr hwn wedi gwneud imi feddwl am sut rydym ni'n defnyddio emynau. "Wel, eu canu nhw!", meddech chi, efallai! Ac yn wir, yn arbennig yng Nghymru, mae emynau yn cael eu canu, ym mhob math o sefyllfa a phob math o lefydd – yn y stadiwm rygbi, yn y dafarn, ar y radio, mewn cyngherddau, yn y cartref, ar y stryd, yn y Gymanfa Ganu, a hyd yn oed yn y capel ar y Sul! Mae emynau yn rhan bwysig o'r diwylliant Cymraeg. Ond mi ges i fy ysbrydoli i feddwl ymhellach am sut rydym ni'n defnyddio emynau fel eglwys Iesu Grist, yn ystod tair sesiwn yng Ngŵyl Greenbelt ym mis Awst. Gŵyl gelfyddydau ac actifyddiaeth Cristnogol yw Greenbelt, sy'n digwydd yn flynyddol yn Lloegr – a'r haf nesaf cynhelir gŵyl o'r enw 'Coda' yng Nghymru, a ysbrydolwyd gan Greenbelt, y bydd hi'n werth edrych allan amdani. Y cyntaf o'r sesiynau a wnaeth imi feddwl am sut rydym ni'n defnyddio emynau oedd perfformiad gan aelodau côr enwog Eglwys St Martin-in-the-Fields, Llundain, o hoff emynau, gyda chyfle i'r gynulleidfa ymuno yn y canu. Mae digwyddiad o'r fath yn cael ei gynnal yn St Martin's bob dydd Iau ac mae'n boblogaidd iawn. Byddai rhyw 20 o bobl yn dod pan gynhelid gwasanaeth arferol ar yr adeg hon o'r wythnos ond erbyn hyn mae rhyw 300 yn dod a hynny bob wythnos. Yr ail sesiwn oedd perfformiad gan gôr 'gospel' Soul Sanctuary, o Eglwys St James, Piccadilly, Llundain, o ganeuon ysbrydol ac emynau, gyda sgwrs am eu harwyddocâd gwleidyddol ac ysbrydol. Unwaith y mis, mae'r côr yma yn canu mewn gwasanaeth Cymun Sanctaidd yn yr awyr agored, yn iard yr eglwys, gyda'r twristiaid yn mynd heibio, a rhai ohonynt yn aros i wrando ac i ymuno yn y gwasanaeth. A'r trydydd sesiwn oedd hen ffefryn Greenbelt o'r enw 'Beer and Hymns'. Dim gwobrau am ddyfalu beth sy'n digwydd yn 'Beer and Hymns'! Mae'n digwydd yn nhafarn maes Greenbelt, sef y 'Jesus Arms', ac mae pobl yn moli Duw wrth iddynt ganu emynau ac yfed cwrw. Mae'n fformat syml iawn sydd wedi cael ei ail-greu mewn tafarnau trwy Brydain gan eglwysi lleol. Does dim angen unrhyw sgil neu offer arbennig – dim ond tafarnwr cyd-deimladwy, pobl i ganu, ychydig o lyfrau emynau a digon o bres i brynu peint!

Ym mhob un o'r sesiynau yma, mae emynau yn cael eu defnyddio i rannu'r efengyl, i rannu'r newyddion da am gariad Duw yn Iesu Grist, â phobl nad ydynt gyda ni yn y capel ar fore Sul. Mae poblogrwydd emynau yn anhygoel, hyd yn oed yn ein cymdeithas 'ôl-Gristnogol' ni. Sut ydym ni'n defnyddio emynau? Ai eu defnyddio nhw i ni ein hunain (ac i Dduw, wrth gwrs) yn unig, ynteu eu rhannu nhw, a'u neges, â phobl eraill? Ymddiheuriadau am sôn amdano, ond mae'r Nadolig yn agosáu, ac mae'n cynnig cyfle gwych i ganu carolau ar y strydoedd ac yn y siopau, a hyd yn oed yn y tafarnau, er mwyn dweud stori'r geni wrth bobl sydd efallai ddim yn meddwl ddwywaith amdano fel arfer. Mae emynau yn cynnig ffordd syml ond effeithiol i efengylu – ac i gael hwyl! Dyna brofiad William Williams, Pantycelyn ac Ann Griffiths, siŵr o fod, ac fe all fod yn brofiad i ninnau, diolch i Dduw.

# CNOI CIL

gan Gwyndaf Roberts

Mis Mai eleni cyhoeddodd Arfon Gwilym a Sioned Webb ddetholiad o garolau haf o dan y teitl ***Canu Haf***. Fe geir yma ddeunaw o alawon ynghyd â geiriau pedair ar bymtheg o gerddi. Hyfryd yw gweld alawon newydd yn y casgliad gyda geiriau newydd gan Alan Llwyd ac Ifor Baines, y ddau wedi dewis y mesur tri-thrawiad i'w carolau. Yn ôl yr Athro J Glyn Davies, tarddiad Seisnig sydd i'r mesur ond mae'n amlwg ei fod yn boblogaidd ymhlith carolwyr fel Edward Morus, Perthi Llwydion (1607-1689) a Huw Morris, Pont y Meibion (1622-1709). Chwe phennill sydd i garol Edward Morus yn y gyfrol hon ond mae'r garol wreiddiol yn ymestyn i 25 pennill! Fe ddefnyddiodd Cynan yr hyn a alwodd yn *'Fesur Dyri - Y Tri Thrawiad'* i ganu ei awdl ***I'r Duw nid adwaenir*** yn Eisteddfod Genedlaethol Pont-y-pŵl 1924. Ni ellir llai na rhyfeddu at geinder yr odlau a'r gynghanedd yn y gerdd a ddaeth â'r gadair iddo. Mesur arall a geir yn *Canu Haf* yw'r un a elwir yn *Mwynen Mai*. Nid yw mor gymhleth â'r tri thrawiad ond mae ei llinellau seithsill yn odli aaab/cccb. Mae sbonc i'w glywed yn y mesur hwn, sy'n gwbl briodol ar gyfer dawns o gwmpas y Fedwen Fai.

Fel y dywed Arfon Gwilym, ychydig o'r hen garolau haf 'paganaidd' sydd wedi goroesi ond gyda'r Diwygiad Protestannaidd ac yna yn nes ymlaen y deffroad Methodistaidd fe ddaeth yr elfennau crefyddol i mewn i'r holl garolau boed haf neu aeaf.

O'r ychydig a wyddom am y cyfnod Catholig yng Nghymru roedd emynau Lladin yn cael eu defnyddio yn y gwasanaethau. Mae emyn 571 yn Caneuon Ffydd *Tyrd Ysbryd Glân i'n c'lonnau ni* yn gyfieithiad o emyn Lladin o'r 9fed ganrif tra bo *Pêr fydd dy gofio Iesu da*, Caneuon Ffydd 307 yn gyfieithiad gan T Gwynn Jones o emyn Lladin o'r 12fed ganrif. Fe gredir mai siantiau Lladin o'r 7fed ganrif yw gwraidd emyn yr Adfent yn *Caneuon Ffydd* 432, *O tyred di, Emanŵel*. Os na chyfrifwn yr emynau o Salmau Cân Edmwnd Prys (1544-1623), mae'n fwy na thebyg mai'r caniad hynaf a ddefnyddir gennym o'r cyfnod Cristnogol yw *Te Deum Laudamus*, rhif 981 yn *Caneuon Ffydd*, sef emyn o waith Emrys o Filan (tua 340-397). Fe welir y cyfieithiad Cymraeg cynharaf yn *Llawysgrif Ysgol Amwythig* sy'n ddogfen o'r 14eg ganrif.

Mae'n amlwg felly bod canu emynau a charolau wedi bod yn rhan o waith y beirdd dros y canrifoedd. Mae naws Pabyddol *Ar Fore Dydd Nadolig* a *Myn Mair* yn mynd â ni yn ôl i'r 15fed ganrif. Mae'r garol hynaf sydd gennym *Mab a'n rhodded, mab mad aned dan ei freiniau*, sef gwaith Madog ap Gwallter (1250-1300), yn tarddu o adeg teyrnasiad Llewelyn y Llyw Olaf. Canodd Madog ap Gwallter wyth pennill ar y mesur Rhupunt Byr gydag odlau mewnol a'r gynghanedd yn gweu trwy'r cyfan.

Mae gennym fel Cymry ddyled i Edmwnd Prys (1544-1623) a Rhys Prichard (1579-1644) ond bu'n rhaid disgwyl tan y gwawriodd y Diwygiad Methodistaidd i gael canrif fawr yr emyn Cymraeg o 1744 ymlaen pan ddaeth *Aleluia*, cyfrol Pantycelyn, o'r wasg. Rydym wedi cael cyfle eleni i werthfawrogi gwaith enfawr William Williams (1717-1791) ond roedd eraill fel Dafydd Jones o Gaeo (1711-77) a Morgan Rhys (1716-79) yn rhan o'r cyffroad.

Priodol hefyd yw cofio am emynau Ann Griffiths (1776-1805), un o'r rhai a ddilynodd Pantycelyn ac a fu o dan ddylanwad beirdd gwlad lleol yn ogystal â'r meistri mawr. Mae'r Athro Bobi Jones yn awgrymu y bu'r plygeiniau yn ddylanwad ar Ann hefyd. Emynydd arall o'r un cyfnod oedd Edward Jones, Maes y Plwm (1761-1836) oedd yn ffarmwr ac athro ysgol. Er ei fod yn hoff o farddoni roedd ei ddaliadau Methodistaidd yn ei rwystro rhag mynd i eisteddfodau. Fe'i perswadiwyd, er hynny, i anfon pryddest i Eisteddfod y Trallwm 1824 ac ef gafodd y wobr er bod beirdd eraill fel Bardd Nantglyn yn y ras. Yn yr eisteddfod honno yr enillodd Eben Fardd (1802-63) am ei awdl fawreddog *Dinistr Jerusalem*. Yn 1805 pan gyhoeddwyd ail argraffiad o weithiau Pantycelyn, *Grawnsypiau Canaan*, carol enwog Edward Jones, Maes y Plwm sef *Clywch lais ac uchel lef* oedd yr emyn olaf yn y llyfr. Mae'r garol, sy'n ddeuddeg pennill o hyd ac a genir ar *Difyrrwch Gwŷr y Gogledd*, yn dangos medr Edward Jones ar y garol hefyd.

Mae tri emyn o'i eiddo yn *Caneuon Ffydd*. Gellir gweld ei ddawn a'i ddifrifoldeb yn rhif 215 *Mae'n llond y nefoedd, llond y byd*. Gŵr sydd wedi meddwi ar odlau oedd ar waith yn emyn 362, *Pob seraff pob sant* medd rhai, tra bo eraill yn gweld dylanwad mawr y mesurau caeth yn emyn 207 *Cyfamod hedd cyfamod cadarn Duw*. Mae ail linell y pennill cyntaf yn gynghanedd sain, *Ni syfl o'i le, nid ie a nage yw*. Ac fe geir hi eto yn llinell olaf y pennill, *Er maint eu pla, daw tyrfa i ben eu taith*. Pedwar pennill sydd yn Caneuon Ffydd ond mae naw yn yr emyn gwreiddiol. Mae'n werth mynd at yr emyn cyfan i weld awdur wedi meddwi yn yr ystyr orau, ar odl a chynghanedd.

Tydi pawb ddim yn gwirioni'r un fath ond mae Duw yn defnyddio ein holl ddoniau os ydym yn caniatáu iddo wneud hynny. Diolch i Edward Jones, Maes y Plwm, am ffoli ar eiriau mewn carol ac emyn fel bod ei waith wedi aros yn boblogaidd am ddwy ganrif a mwy.

Ffion – filler plis




Y CADEIRYDD YN PREGETHU YN Y GWAHANOL ARDALOEDD

**Hydref**
1 Bathafarn a Llanwddyn
8 Môn ac Arfon
15 Morgannwg
22 Gwyliau
29 Dyffryn Clwyd

**Tachwedd**
5 Ceredigion
12 Môn ac Arfon
19 Dyffryn Conwy
26 Llanrhaeadr

Gweddïwn am fendith Duw ar ymweliadau'r Cadeirydd ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl

# TOM GWYN JONES

## (1944 – 2017)

Rhan o deyrnged y Parchedig Huw John Hughes



Hogyn o Rhiwlas oedd Gwyn, ail blentyn i William Arthur ac Annie Jones. Ei fam yn hanu o Bensarn, Môn a'i dad o Rhiwlas. Saith mlynedd rhyngddo fo a Heulwen, ei chwaer hŷn. Addysg gynradd yn Rhiwlas ac yna i Ysgol Dyffryn Ogwen, yn fwrlwm o ddireidi, arian byw o hogyn. Ar ôl sefyll yr hen lefel O, gadawodd yr ysgol a dechrau gweithio fel clerc yn Chwarel y Penrhyn, yn gyfrifol am gyflogau'r chwarelwyr. Yno y bu am ryw bum mlynedd. Cyfarfu â Carol yng Nghaernarfon a phriodi yng nghapel Tan y Coed, Llanrug yn 1967, hi yn 21 oed a Gwyn yn 22 oed. Byw yn 13 Stryd Fawr, Rhiwlas a saith mlynedd yn ddiweddarach ymddangosodd Caren – presant pen-blwydd i Gwyn oedd Caren gan ei bod wedi'i geni mor agos ag y medrai hi i ben-blwydd ei thad yn 30 oed.

Wedi ffarwelio â'r Chwarel, dechreuodd Gwyn weithio i Adran Tai Cyngor Bangor. Ar ôl dwy flynedd yno, cafodd swydd yn Adran Stadau, Coleg y Brifysgol a chyn ymddeol yn derfynol bu'n gweithio hefyd i Gyngor Gwynedd. Roedd uwchben ei ddigon pan anwyd ei ŵyr, Osian – cannwyll ei lygad. Meddai Lleuwen Steffan, hefyd yn enedigol o Rhiwlas, amdanynt: 'Roedd gweld y ddau efo'i gilydd yn cynhesu fy nghalon.'

Er y direidi a'r doniolwch a berthynai i Gwyn, roedd 'na ochr arall – difrifoldeb. Ac mae hyn yn amlygu'i hun yn ei gyfraniad i'w gapel ac i'w enwad. Bu'n organydd yn y capel. Roedd ei dad yn ysgrifennydd Capel Pisgah a phan dorrodd ei iechyd mi ddaeth Gwyn i'r adwy a chymryd y gwaith o ysgrifennydd yr Eglwys o ddifrif. Trwy hyn daeth yn ffrindiau efo amryw o weinidogion a phregethwyr ledled y Gogledd. Yng nghanol y 70au fe gymerodd y cyfrifoldeb o fod yn Oruchwyliwr Cylchdaith Arfon ac yn ddiweddarach Môn ac Arfon. A rhyw dair blynedd yn ôl cymerodd y swydd o fod yn Drysorydd Synod Cymru a bu Gwyn a Carol, tîm Creigle, yn gwneud y gwaith hwn yn drylwyr a chydwybodol.

Sut mae crynhoi personoliaeth Gwyn? Ei ddireidi ar y naill law a'i ddifrifoldeb ar y llall – ond roedd y ddwy elfen yma'n asio'n un ym mhersonoliaeth Gwyn. Roedd yr hwyl a'r miri yn denu plant ac mae Osian ei ŵyr a Heledd a Morgan, nai a nith iddo, wedi cael modd i fyw yn ei gwmni. Roeddwn i wedi meddwl traethu am Gwyn o dan benawdau penodol megis cymer, cartref a chapel, y tair 'c' – ond roedd y rhain yn rhy glinigol, rhy ffurfiol, rhy bregethwrol i bersonoliaeth mor fyrlymus ac amlochrog. Ond petawn i wedi dilyn y trywydd hwn mi fyddai un 'c' arall yn amlygu'i hun ac yn codi i'r brig – Cymro i'r carn. Roedd yr iaith Gymraeg, y diwylliant a'r traddodiadau Cymraeg a Chymreig yn llywodraethu ei fywyd a chael addoli yn y Gymraeg yn wefr wythnosol iddo yng nghapel Pisgah. Addoli yn y Gymraeg a dyrchafu Duw yn Iesu Grist oedd yn nodweddu ei ffydd ddiysgog, gadarn a'r ffydd hon a'i cynhaliodd ar hyd ei oes. Diolch i Dduw am ei fywyd, am ei esiampl ac am gael cerdded rhan o bererindod bywyd yn ei gwmni. Diolch, Gwyn, am sirioli ac ysgafnhau'r daith. Da was da a ffyddlon.


**MERCHED METHODISTAIDD YM MHRYDAIN**

Dydd Sadwrn Hydref 21ain 2017 • Capel Seilo, Llandudno

2.30 y prynhawn

Anerchiad gan GWENDA HUMPHRIES, Prestatyn:

**'Merched Crist, ddoe, heddiw ac yfory'**

Datganiad ar delynnau gan HELEN WYN PARI a MARIEL HAVARD GRIFFITHS

Te i ddilyn am bris rhesymol.

Cysylltwch â **Rona Morris (01691 780226)** neu **Valerie Williams (01758 614083)** i drefnu lle ar fws i'r cyfarfod.


# A oes heddwch?

gan Geraint Lloyd Owen, Archdderwydd Cymru



Un o'r pethau a roes wefr a chryndod i lawr fy asgwrn cefn yn Steddfod Ynys Môn rhyw fis yn ôl oedd clywed llond pafiliwn o eisteddfodwyr pybyr yn ymateb i'm cais fel archdderwydd i ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn 'A oes Heddwch?' Gwnaed hynny deirgwaith ymhob un o'r prif seremonïau ac roedd yr ymateb yn rhywbeth i'w groesawu a'i gofleidio. Ond arhoswch am eiliad i feddwl. Yng nghyffro'r foment os gwn i faint o'r dyrfa luosog a gredai tra'n gweiddi am heddwch, ei bod yn bosibl gwireddu hynny? Cri negyddol a glywaf i bob noson tra'n gwylio'r rhaglen News at Ten. Troi'n glust fyddar y mae llawer o wledydd y byd, a gormes, rhaib, ariangarwch a chyfalafiaeth sy'n ennill y dydd ac yn gorbwyso cariad at gyd-ddyn. Ond nid pawb sy'n ei gweld felly. Dywedwyd wrthyf yn y Fenni llynedd ac ym Modedern 'leni i beidio gwneud cystadleuaeth o'r gweiddi am heddwch rhwng tyrfa y naill seremoni ar llall. Os nad yw heddiw yn amser i floeddio heddwch a ninnau ynghanol rhyfela cyson o ddydd i ddydd pa bryd yw'r amser gorau i wneud hynny? Rydym yn fwy na bodlon i fod fel 'gwymon o ddynion heb ddal tro'r trai' ac yn hynod o ddiasgwrn cefn. I mi, fel archdderwydd, dyna ddechrau dagrau pethau a gwae ni oll o hynny.

CAPEL NI YN EGLWYS IESU

## Pendref, Dinbych

**ADDOLI**
Parhawn i addoli gydag aelodau Peniel yn Festri Pendref ac Eglwys Peniel Llanelwy. Cynhaliwyd oedfaon bendithiol yn y ddwy Eglwys yn ystod Gorffennaf dan ofal y Parchedig Peter Jennings, Mrs Elizabeth Jones, y Parchedig Ddr Jennie Hurd a Royce Warner. Yn ystod Awst cynhaliwyd oedfaon undebol yn nhref Dinbych; gwasanaethwyd ym Mhendref gan Mr Tom Williams.

**NEWYDDION DA**
Ar Orffennaf 11eg cyfarfu nifer o'r aelodau ynghyd â'n gweinidog y Parchedig Tudur Rowlands a'r Parchedig Ddr Jennifer Hurd i drafod adroddiad ar y gwaith o atgyweirio to a nenfwd y capel. Mewn cyfarfod ffrwythlon a phositif, cytunwyd i anelu i gwblhau'r gwaith ar y capel erbyn diwedd y flwyddyn galendr bresennol ac wedyn i ddechrau ar y gwaith ar y Tŷ Capel. Cafwyd cadarnhad fod y trefniadau ariannol yn eu lle a bod caniatâd i ddechrau ar y gwaith ar y to. Dymunwn fel Eglwys ddiolch yn fawr iawn i'r Ardal, y Gylchdaith a'r Synod am eu cefnogaeth a'u cymorth.

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i Mared Jones ar ennill gradd M.A. mewn Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Caerdydd. Carem longyfarch Geraint Roberts am ddod yn ail yng nghystadleuaeth Canu Emyn i rai dros 60 yn yr Eisteddfod Genedlaethol; llongyfarchiadau hefyd i Medwyn Jones ar gael ei benodi'n Is Lywydd Côr Meibion Dinbych a'r Cylch – hyn yn cyd-fynd â phenodiad Caryl Parry Jones yn Llywydd y Côr.

**DYMUNIADAU GORAU**
Dymunwn yn dda i Mrs Joan Pritchard a'i chwaer Mrs Dorothy Evans sydd bellach wedi symud o Blas Llanrhaeadr i'w cartref newydd yng nghanolbarth Lloegr. Ein dymuniadau da am wellhad buan i nifer o'n haelodau.

**MWY TRIST NA THRISTWCH**
Ar Orffennaf 31ain eleni roedd hi'n 100 mlynedd ers dechrau brwydr fawr Passchendaele. Cafodd aelod ffyddlon yng Nghapel Salem Dinbych sef chwaer Eglwys i Bendref, ei ladd yn ystod trydedd Brwydr Ypres ar y dyddiad hwn yn 1917 pan gollodd y Bataliwn yr oedd yn aelod ohoni 240 o ddynion mewn un diwrnod. Roedd John Owen Williams, 19 oed, yn fab i John a Sarah Ann Williams, Clifton House, Gwaelod y Dref. Nid oes ganddo fedd ond mae ei enw wedi ei goffáu ar Borth Menin yn Ypres, lle chwaraeir yr "Utgorn Olaf" bob min nos am 8 o'r gloch.

*Gohebydd – Mary Jones*

## Ardal Môn ac Arfon

**PABELL CYTÛN**
Yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn fe wirfoddolodd rhai o aelodau Ardal Môn ac Arfon i fod yn gyfrifol am wneud paneidiau ym Mhabell Cytûn ar y Sadwrn cyntaf, gan mai'r Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru oedd yn gyfrifol am hyn ac am gynnal gwasanaeth yn y bore. Cafwyd gwasanaeth bendithiol iawn o dan ofal y Parchedig Ddr Jennie Hurd gyda'r Parchedig Gwynfor Williams, Delyth Davies a Carol Jones yn cymryd rhan. Roedd y babell yn llawn o bobl wedi dod i ymuno yn y gwasanaeth.



*Hefin ac Einir Williams a Jim a Rhian Evans-Hill o Pisgah, Rhiwlas*



*Margaret Roberts, Pencarnisiog a Norah O'Brien, June Aubrey, Morwenna Roberts a Gwenfor Roberts o Ebeneser, Caernarfon.*

## Ebeneser, Caernarfon

**CYFARFOD ARBENNIG**
Nos Wener, 21 Gorffennaf, cynhaliwyd noson arbennig i anrhegu'r Parchedig Gwynfor Williams. Arweiniwyd y cyfarfod gan y Parchedig Ddr Jennie Hurd ac, yn dilyn gweddïau a gair byr o werthfawrogiad gan y Diacon Stephen Roe, mwynhawyd eitemau cerddorol gan



*Diolch am wasanaeth Gwynfor*

Morwenna Roberts, June Aubrey a John Howard Hughes. Yna cyflwynodd (y diweddar, ysywaeth) Gwyn Jones dysteb i Gwynfor. Cyflwynwyd tusw o flodau i Mrs Kate Williams gan Mrs Carol Jones. Diolchodd Gwynfor yn gynnes i bawb.



*Megan ac Arfon*

Yn yr un cyfarfod, cyflwynwyd rhodd i T. Arfon Roberts am ei waith diflino fel trysorydd Ebeneser, am gyfnod o dros ddeugain mlynedd. Un parod ei gymwynas ac yn byrlymu o hiwmor bob amser fu Arfon, hawddgar a phoblogaidd tu hwnt, gan wynebu amgylchiadau anodd yn ddi-gŵyn. Ar derfyn y cyfarfod cafwyd cyfle i sgwrsio â ffrindiau a mwynhau y wledd a osodwyd o'n blaenau.

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i Dafydd Trewyn ac Elain Jones ar eu llwyddiant yn eu harholiadau Lefel A a phob dymuniad da iddynt ym Mhrifysgol Caerdydd.

Gwelsom dri o'n haelodau ar lwyfan y Brifwyl eleni: John Howard Hughes gyda Chôr Meibion Caernarfon, a ddaeth yn drydydd yn eu cystadleuaeth; hefyd Morwenna Roberts a Dr Nia Huws, oedd yn aelodau o gôr a ffurfiwyd gogyfer â'r Eisteddfod sef Côr Narfon. Côr lliwgar iawn eu gwisg!

Llongyfarchiadau i barti Karen Jones ym myd y ddawns. Daeth y parti yn gyntaf unwaith yn rhagor.

**CYDYMDEIMLO**
Yn dilyn gwaeledd byr bu farw Kate Williams, priod hawddgar y diweddar Ifan Hefin Williams. Byddai Kate bob amser yn gweithio'n ddiwyd yn y dirgel a bu'n gefn eithriadol i Ifan yn ystod ei ofalaeth fel bugail Eglwys Ebeneser. Byddai Kate yn ymweld yn gyson â

CAPEL NI
YN EGLWYS IESU

chartrefi'r henoed ac ysbytai lleol. Roedd ei hangladd dan arweiniad ein gweinidog y Parchedig Gwynfor Williams. Cydymdeimlwn yn llwyr ag Eryl, David a John a'u teuluoedd.

Yn dilyn arhosiad byr yn Ysbyty Eryri, bu farw Richard (Richie) Roberts, un o blant yr Eglwys ac un a fagwyd yn Nhre'r Gof – ei gartref o fewn tafliad carreg i Ebeneser. Roedd Richie'n ffyddlon iawn bob amser. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i deulu oll. Mae ymadawiad Kate a Richard yn gadael bwlch enfawr yn ein plith fel eglwys.

*Gohebydd – Branwen L. Edwards*

***Mae ei chyfeillion yn Ebeneser yn falch iawn fod Branwen yn gwella'n dda yn dilyn ei llawdriniaeth. Adferiad llwyr a buan i chi, Branwen.***

## Eglwys Unedig Colwyn

**CYD-ADDOLI**
Drwy gydol mis Awst buom yn ymuno â'n cyfeillion o wahanol Eglwysi'r fro i addoli a chawsom wasanaethau bendithiol yng nghwmni'n gilydd. Roedd y gwasanaeth yn Horeb o dan ofal y Parchedig R. Ifor Jones gyda Mr Gwyn Jones wrth yr organ. Diolch i'r ddau ohonynt. Anfonwn ein cofion annwyl at y cyfeillion sy'n methu dod i'r oedfaon oherwydd llesgedd.

*Gohebydd – Rhiannon Jones*

## Ebeneser, Trefor, Môn

**PEINTIO**
Diolch i Mr Gareth Thomas am beintio'r rheiliau a'r giatiau o flaen y capel – taclus iawn!

**CYFARFOD ANRHEGU**
Cafwyd cyfarfod arbennig iawn i ddiolch i'r Parchedig Gwynfor Williams am ei holl waith. Rydym ni yma yn Nhrefor yn gwerthfawrogi ei gyfeillgarwch a'i ffyddlondeb a'i holl gymwynasau i ni.

**CYFARFOD PREGETHU**
Y pregethwr gwadd eleni oedd y Parchedig Ddr Huw John Hughes a chafwyd oedfa fendithiol dan ei ofal. Fe'i cyflwynwyd gan y Parchedig Gwynfor Williams a'r organydd oedd Mrs Gwyneth Thomas. Diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau ariannol.

**EISTEDDFOD**
Braint oedd cael bod ym mhafiliwn yr Eisteddfod ym Modedern ar gyfer oedfa'r bore a chydaddoli mewn gwasanaeth mor arbennig. Ar brynhawn cyntaf yr Eisteddfod bu pedair ohonom yn gwneud paned ym mhabell yr Eglwysi a braf oedd sgwrsio a chyfarfod llawer o gyfeillion.


*Ann Jones, Catherine Roberts, Carys Thomas a Gwyneth Thomas*

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mared Foulkes yn dilyn ei llwyddiant yn ei harholiadau.

**COLLED**
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mr T. Gwyn Jones, Rhiwlas, un oedd bob amser mor barod ei gyngor a'i gymwynas. Cydymdeimlwn â Mrs Carol Jones a'r teulu yn eu profedigaeth.

*Gohebydd – Carys Thomas*

## Tabernacl, Llanfyllin

**GWEITHREDU DROS BLANT**
Mae'r Tabernacl wedi cael blwyddyn lwyddiannus iawn unwaith eto gan godi dros £600 at Gweithredu Dros Blant, gyda gwahanol weithgareddau oedd yn cynnwys Te Prynhawn, Taith Gerdded yn y Goedwig, Blychau Casglu a Chasgliadau mewn Oedfaon Arbennig. Cafwyd ysbrydoliaeth gan y siaradwraig Gail Dean mewn Oedfa Arbennig. Mae hi'n gweithio gyda'r elusen ers dros ugain mlynedd ac mae'n swyddog codi arian ar gyfer Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr. Siaradodd gydag angerdd am ei gwaith a'r ffordd mae wedi newid dros y blynyddoedd er mwyn diwallu anghenion plant a'u teuluoedd sy'n newid dros y blynyddoedd. Gadawodd bawb yn teimlo'n bur falch o fod yn rhan fach o waith mor bwysig sy'n cael ei wneud yn enw'r Eglwys Fethodistaidd. Y swyddogion lleol yw Keith a Decia Blacker.

**BEDYDD**
Ar bnawn braf ym mis Gorffennaf daeth teulu a ffrindiau ynghyd i gapel y Tabernacl i dystio i fedydd Rubi Hartshorn, merch Hannah a Peter. Mr Tom Ellis oedd yn gwasanaethu a'r rhieni bedydd oedd Hayley Wright a Craig Hartshorn. Mrs Eldrydd Jones oedd wrth yr organ.

**DRWS AGORED**
Cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus yn festri'r Tabernacl ganol Awst, pan wnaed elw o £285.83. Roedd y trefniadau yng ngofal Mrs Mair Ellis, gyda chymorth aelodau a ffrindiau Drws Agored. Ar 6 Medi cafwyd sgwrs Mrs Margaret Herbert, Pont Robert, ar y testun 'Saffari i Botswana'.

*Gohebydd – Robin Hughes*

## Ebeneser, Treuddyn

**DYMUNIADAU GORAU**
Llongyfarchiadau i Rebecca, wyres Rachel Jones, a Glenn Pritchard ar achlysur eu priodas ac i Laverne Orton, merch Ceridwen a'r diweddar Peter, a Robert Wyn Evans ar eu priodas hwythau ym mis Awst. Dymuniadau gorau i'r ddau gwpl am bob hapusrwydd yn eu bywyd priodasol.

Llongyfarchiadau i Mandy a Cyril Jackson ar enedigaeth eu hwyres Megan Mair ym mis Awst, merch fach Bethan a Peter Watkiss. Pob bendith arnynt i gyd.

**GWASANAETHAU**
Yn ystod Awst a Medi cynhaliwyd gwasanaethau dan ofal y Parchedig Marc Morgan, a'n gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans. Ar Fedi 10fed cynhaliwyd ein Cyfarfod Pregethu blynyddol dan arweiniad y Parchedig Brian Evans, Yr Wyddgrug. Cofiwn am y rhai sy'n methu bod gyda ni, gan ddymuno gwellhad buan i'r rhai sy'n wael.

**Edrychwn ymlaen at ein Gwasanaeth Diolchgarwch a fydd dan ofal y Parchedig Ddr Siôn Aled Owen, Wrecsam ar nos Sul, Hydref 8fed. Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno â ni.**

**TE PRYNHAWN**
Ar ddydd Sadwrn, Medi'r 9fed, cynhaliwyd ein Te Prynhawn blynyddol yng Nghanolfan Hafan Deg. Diolch yn fawr iawn i bawb a'n cefnogodd a'r rhai fu'n gweini.

*Gohebydd – Glenys Davies*

Pe chwythai y corwynt fi'n fil o ddarnau
Fel niwl trwy gangau y deri a'r yw,
Ni phallai fy ffydd, na sain fy nghaniadau,
Can's gwn na'm chwythid tu allan i ffiniau
Y bwriad sy fyth yng nghyfrinach Duw.
HEDD WYN

# CAPEL NI YN EGLWYS IESU

## Salem, Rhyd y Foel

**SUL Y GERDDI AGORED**

Yn flynyddol drwy gydweithrediad â mudiad y Groes Goch trefnir Sul Gerddi Agored yn y pentref pryd y byddwn yn agor capel Salem drwy'r dydd. Eto eleni roedd nifer o unigolion wedi addurno



ffenestri'r capel a'r thema y tro hwn oedd "Y Ddraig" a "Chwedlau Cymraeg" a phawb wedi dehongli'r themâu mor wahanol. Daeth llawer o bobl i'r capel i edmygu'r olygfa odidog.

**PERERINDOD**

Ddydd Sul 6 Awst fe drefnodd Miss Esther Roberts i aelodau a chyfeillion Salem a Horeb Betws yn Rhos fynd ar bererindod i Bennant Melangell lle



cawsom gydaddoli mewn gwasanaeth arbennig yn yr eglwys hynafol. Hyfryd oedd bod mewn man mor hardd a thawel yng nghesail mynyddoedd y Berwyn. Ar ôl y gwasanaeth clywsom beth o hanes Pennant Melangell a chael croeso cynnes gan y ficer a'r aelodau dros baned a chacen. Diwrnod ardderchog.

**CYDYMDEIMLO**

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Mrs Iola Roberts, Plas Onn, wedi iddi golli nith sef Miss Louise Davies, Llysfaen, ac i Siân a Medwyn Lewis, Pen y Cefn, yn eu profedigaeth o golli eu tad sef y diweddar Mr Glyn Lewis ac i Mr Bob Thomas (Horeb), yntau wedi colli brawd yng nghyfraith.

*Gohebydd – Siân Price*

## Pont Robert

**LLWYDDIANT**

Llongyfarchiadau i Anni Vaughan Jones ar ei llwyddiant yn pasio Gradd 3 ar ei chlarinét gyda Theilyngdod.

**LLONGYFARCHIADAU**

Pob dymuniad da i Bethan a Martin, Bodyddon Fach, a fu'n dathlu 25 o flynyddoedd o fywyd priodasol.

**NEWID AELWYD**

Dymuniadau gorau i Gwen a Tegwyn sydd wedi cyfnewid eu cartref, gan symud i fyw i Frynderwen a Siân, Alun a'r teulu yn ymgartrefu ym Mhenwtra.

*Gohebydd – Margaret Blainey*

## Ardal Bathafarn

**LLWYDDIANT**

Llongyfarchiadau, braidd yn ddiweddar ond yr un mor ddiffuant, i Osian Gwyn, ŵyr Marian a Gwyn, Corwen, ar ennill gyda'r gitâr yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Dymuniadau gorau iddo at y dyfodol.

**DATHLU**

Llongyfarchiadau calonnog i Gretta a Barry Davies ar ddathlu eu priodas ddiemwnt. Pob bendith. Llongyfarchwn a dymunwn bob hapusrwydd i Elinor, merch Rowena a Chris Wynne, a Benjamin Kapur ar eu priodas yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy. Mae Elinor yn wyres i'r diweddar R.J. ac Evelyn Lloyd Jones, a fu'n hynod o ffyddlon a gweithgar yng nghapel Bathafarn.

**CYDYMDEIMLO**

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Gwyn Williams a'r teulu o golli brawd annwyl o Fochdre, hefyd at Llew ac Audrey, Gwyddelwern o golli chwaer a chwaer yng nghyfraith sef Alice Ellis o Langwm. Meddwl amdanoch fel teuluoedd.

**AELOD NEWYDD**

Rydym yn falch o gael Edwina Stephens yn aelod gyda ni, hithau yn ferch i'r diweddar R.J. ac Evelyn Lloyd Jones. Croeso cynnes iddi atom.

**EISTEDDFOD 2017**

Llongyfarchiadau i Guto, priod wyres y diweddar Barchedig a Mrs Cyril Lloyd, ar ei gampwaith gydag 'A Oes Heddwch?' yn noson agoriadol yr Eisteddfod.

**GWASANAETHAU UNDEBOL AWST**

Daeth cynulleidfa arbennig o dda i'r holl wasanaethau yn Rhuthun gan gynnwys cyfeillion teyrngar o gapeli'r wlad. Cafwyd neges amserol iawn gan Aled Edwards, Prif Weithredwr Cytûn, yn y gwasanaeth ym Mathafarn. Diolch i Rhian am gyfeilio, Dafydd am groesawu, Elizabeth am roi'r blodau ac i Beryl a Dilys am ofalu am yr addoldy ym misoedd Awst a Medi.

**PENWYTHNOS AGORED**

Agorwyd capel Bathafarn i ymwelwyr yn ystod mis Medi – mae'n adeilad hanesyddol sydd yn werth ei weld. Diolch i bawb am eu cymorth.

**GWASANAETHAU**

Diolch i'r Parchedig Martin Evans-Jones am wasanaethu yn ein hoedfa Gymun ac adnewyddu'r Cyfamod, hefyd i Mr Richard Jones, Pontfadog. Anfonwn ein cofion anwylaf at y rhai sydd mewn gwaeledd.

**PROFEDIGAETH**

Estynnwn ein cydymdeimlad dyfnaf at deulu'r diweddar Gwyn Jones, Rhiwlas, a fu'n weithgar iawn fel trysorydd y Synod.

*Gohebydd – Elizabeth Jones*

## Bethel, Prestatyn

**CODI ARIAN**

Bu'n rhaid wynebu'r sialens o godi cryn dipyn o arian yn ystod yr haf hwn, i dalu am waith trwsio angenrheidiol ac offer diffodd tân newydd. Mae'n braf dweud ein bod wedi cyrraedd y nod erbyn hyn a hoffai'r swyddogion diolch i bawb am eu gwaith caled a'u cefnogaeth. Cynhaliwyd Bore Goffi i godi arian ac aeth Mrs Marianne Roberts ati i wneud sesiwn nofio noddedig.

**CYNGERDD MAWREDDOG**

Uchafbwynt ein haf oedd y Cyngerdd Mawreddog gyda Chôr Ger y Ffin o





# O'R PEN YMA

gan ANGHARAD TOMOS

Os oes un lle y dylech fynd **i'w weld eleni**, cartref Hedd Wyn yn Yr Ysgwrn, Trawsfynydd yw hwnnw. Mae o'n lle arbennig iawn, a dwi'n ceisio dadansoddi pam.

Ydi, mae'r lleoliad yn un bendigedig, ydi, mae'n stori dda y gall pawb ymateb iddi, ond mae o'n rhywbeth mwy na hyn. Dwi'n credu fod gwirionedd dwfn iawn i'w ganfod yn Yr Ysgwrn, a dyna pam mae pobl yn heidio yno.

Y tro dwytha i mi fod yno, roedd Gerald yn y gegin yn egluro sut oedd gwneud cannwyll frwyn. Ganwyd Gerald yn Yr Ysgwrn ym 1929, ac er iddo symud i lawr y lôn am rai blynyddoedd, dychwelyd i'r lle wnaeth o yn bedair oed, gan fod ei fam (chwaer Hedd Wyn) wedi marw. Gan rieni Hedd Wyn y'i magwyd, **a dydi o rioed wedi** gadael y fan.

Drwy gydol ei fywyd, mae Gerald Williams wedi byw heb drydan a heb gyflenwad dŵr. Bellach, daeth datblygiadau modern i'r fferm, ac mae Gerald yn mwynhau moethusrwydd byngalo gerllaw. Ond mae'n dystiolaeth fyw nad o'r materol y mae cael boddhad. Dwi'n gwylio ei ddwylo yn trin y frwynen wrth iddo egluro'r gwahaniaeth rhwng brwynen fenyw ac un wryw. Dyfalaf sawl gwaith y mae wedi mwydo'r frwynen mewn braster dafad, a llunio cannwyll. Mae'n disgrifio ei harogl. Mae'n egluro tarddiad 'llosgi'r ddau ben o'r gannwyll'.

Dydi Gerald ddim yn rhamantydd, ac mae'n derbyn fod adegau caled iawn wedi bod ym mywydau ei daid a'i nain, a'r profedigaethau chwerw ddaeth i'w rhan – colli dau faban ar yr un dydd, colli Hedd Wyn y cyntaf anedig, colli mab arall y flwyddyn ganlynol ac yntau yn Seland Newydd, colli merch. Ond mae llawenydd wedi bod yn gymysg â'r dagrau, ac mae Gerald gwerthfawrogi bywyd yn ei gyflawnder.

Mae tawelwch Yr Ysgwrn yn dangnefeddus. Wrth edrych ar y bryniau o'r drws ffrynt, gwelaf yr un olygfa ag y gwelodd Hedd Wyn. Roedd trefn a defod yn perthyn i fywyd fferm. Rhoddwyd hen, hen iaith i Hedd Wyn, a dysgodd blethu'r geiriau yn gerddi a chynghanedd goeth. Mae'r cadeiriau eisteddfodol yn dyst i warineb y gymdeithas, mae'r tân yn y grât yn groeso i bob ymwelydd.

Ewch yno, oedwch, myfyriwch. A meddyliwch peth mor orffwyll yw rhyfel fedr ddwyn gŵr ifanc o'i gartref, ei orfodi i ladd eraill, cyn colli ei fywyd ei hun. Mae'n orffwylltra sy'n parhau i ddigwydd heddiw.



## CROESO



Ar 1 Medi, yn Shiloh, Tregarth, cynhaliwyd cyfarfod croeso arbennig i'r Parchedig Richard Gillion. Mae Richard wedi dod i wasanaethu yng Nghylchdaith Cymru, Ardal Môn ac Arfon. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan bobl o bob un o wyth capel yr Ardal a phregethwyd gan Gadeirydd Synod Cymru, y Parchg. Jennie Hurd. Cafwyd cyfarchion hefyd gan gyfeillion o eglwysi eraill a chynrychiolwyr yr Eglwys Fethodistaidd, ac fe fwynhaodd pawb swper gyda'i gilydd. Llawenydd mawr i ni yw cael eich croesawu i'n plith, Richard a Lesley, a boed bendith Duw arnoch.

# Crwydro Llefydd Sanctaidd – Köln

gan Bet Holmes

Ar ddiwedd mis Ebrill, treuliais bedwar diwrnod yn Köln, neu Cologne, yn yr Almaen, yn dioddef oriau hir o gyfarfodydd. Un diwrnod yn unig oedd gyda fi i ymweld â'r ddinas: "gormod i weld, ddim digon o amser" oedd fy nghri. Ond "dere gyda fi," meddai fy ffrind Kate, "a dangosaf iti un o'r pethau mwyaf diddorol yn y ddinas". Yn yr eglwys gadeiriol, efallai, neu mewn amgueddfa? Na, yn yr Antoniterkirche. Nid yw'r eglwys hon yn edrych yn spesial iawn, ond ynddi mae un o gerfluniau mwyaf diddorol y byd: y *Schwebende*, yr angel hofran, gan Ernst Barlach.





Cofeb rhyfel, sy'n dyddio o 1926-7, yw'r angel: bu Barlach yn ymladd yn y Rhyfel Fawr, ac fe ddaeth yn ôl yn heddychwr. Mae ei gerflun yn gwbl anghyffredin ac yn unigryw: yn hongian dros y byd, gyda'i freichiau wedi croesi a'r llygaid ar gau, mae'r angel yn galaru am ddioddefaint a thristwch rhyfel. Mae'r effaith mae'r cerflun hwn yn cael ar bob ymwelydd yn gryf iawn.



Ond yn ôl y Natsïaid, "artist salw" (*degenerate artist*) oedd Barlach, ac fe dynnwyd ei gampwaith i lawr i'w ddinistrio. Diolch byth bod rhai o'i ffrindiau wedi cadw ail gast yn ddiogel yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a dyma'r un sydd yn yr Antoniterkirche. Mae copi hefyd yn Güstrow, lle ganwyd Barlach, a daeth y fersiwn hon i Lundain am gyfnod yn 2014. Tybed fu un o'r darllenwyr yn ddigon ffodus i'w weld?

# SANT ANDREAS

gan y Parchedig Martin Evans-Jones

Dethlir dydd gŵyl Andreas ar Dachwedd 30ain ac ef yw nawddsant yr Alban. Pwy yn union oedd Andreas, a beth oedd ei hanes?

Cawn hanes Andreas yn y Testament Newydd (Ioan 1.41). Roedd yn un o ddisgyblion cyntaf yr Iesu. Yn ôl Ioan roedd rhai o ddisgyblion cyntaf Iesu wedi bod cyn hynny yn ddisgyblion i Ioan Fedyddiwr. Wrth wylio Iesu'n cerdded heibio meddai Ioan, "Dyma Oen Duw!" Clywodd dau o'i ddisgyblion ef yn dweud hyn ac aethant i ganlyn Iesu. **Andreas**, brawd Simon Pedr, oedd un o'r ddau hyn. "Y peth cyntaf a wnaeth hwn oedd cael hyd i'w frawd, Simon, a dweud wrtho, 'Yr ydym wedi darganfod y Meseia'. Daeth ag ef at Iesu."

Yn sgil hyn, daethpwyd i adnabod Andreas fel y cyntaf o'r cenhadon i achos Crist. Hanai o Fethsaida yng Ngalilea a chysylltodd ei hun â Christ gan fwynhau cyfeillgarwch arbennig ag Ef. Roedd Andreas bob amser yn barod i helpu; er enghraifft yn Ioan 6:8, pan welodd Iesu fod tyrfa fawr yn dod tuag ato ac yn amlwg yn newynog, Andreas oedd yr un a sylwodd fod yno fachgen "a phum torth haidd a dau bysgodyn ganddo". Wedi i Andreas dynnu sylw at hynny y cyflawnodd Iesu y wyrth o borthi'r pum mil.

Dro arall (Ioan 12:21) wedi i Iesu ddod i'r ŵyl yn Jerwsalem a marchogaeth i mewn i'r ddinas ar ebol asyn fel arwydd o heddwch a'r dyrfa fawr yn ei gyfarch fel Brenin Israel, daeth rhyw Roegiaid oedd yno at Philip, un o'r disgyblion, a gofyn iddo, "Syr, fe hoffem weld Iesu". Aeth Philip i ddweud wrth Andreas, ac aeth Andreas a Philip i ddweud wrth Iesu. A dyma Iesu'n eu hateb. "Y mae'r awr wedi dod," meddai, "i Fab y Dyn gael ei ogoneddu". Roedd presenoldeb y Groegiaid hyn yn arwydd fod awr marwolaeth a gogoniant Iesu wrth law. Dim ond wedi'r croeshoeliad y bydd yr Efengyl yn cwmpasu Iddewon a Groegiaid fel ei gilydd, a'r amser wedi dod i'w lledaenu i'r holl fyd.

Roedd gan Andreas ran allweddol i'w chwarae, felly: o ran sicrhau arweinyddiaeth yr Eglwys Fore drwy ei frawd Simon Pedr ac, yn ogystal, ar y foment y torrodd yr Efengyl drwodd i gyrraedd cenhedloedd eraill.

Wedi esgyniad Crist i'r nefoedd, pregethodd Andreas yn Jerwsalem. Yn ôl **Eusebius**, a ysgrifennodd hanes yr Eglwys Fore, aeth ymlaen i bregethu yn Scythia, ar hyd glannau'r Môr Du ac ar hyd afon Dnieper cyn belled â Kiev. Oddi yno fe deithiodd i Novgorod. Dyna sut y daeth yn nawddsant yr Wcráin, Rwmania a Rwsia. Yn ôl traddodiad ef sefydlodd esgobaeth Bysantiwm (Caer Gystennin) yn 38 Oed Crist. Pregethodd hefyd yn Thrace, Scythia, ac Achaia (gwlad Groeg heddiw). Dywedir iddo gael ei ferthyru trwy groeshoeliad yn ninas Patras yn Achaea (am iddo geryddu Aegeas yr arweinydd am uniaethu ag eilunaddoliad). Clymwyd ef wrth groes mewn ffurf X am ei fod yn cyfrif ei hun yn annheilwng i gael ei groeshoelio ar yr un math o groes â'r Iesu.

Cadwyd gweddillion Andreas yn Patras. Yn ôl traddodiad cafodd mynach o'r enw Regulus freuddwyd yn ei gynghori i fynd â hwy i 'bellafoedd byd' i'w cadw'n ddiogel. Hwyliodd i'r gorllewin mewn llong, yn cludo pen-glin, darn o fraich, tri bys, a dant Andreas. Ond cafodd longddrylliad ar arfordir Fife yn yr Alban. Ond yn fwyaf tebyg, dygwyd y gweddillion hyn i Brydain yn 597 yn ystod cenhadaeth Awstin ac i Fife yn 732. Dyna sut y daeth Andreas yn nawddsant yr Alban a phaham y mae baner yr Alban yn arddangos ei groes. Clodforwn Andreas heddiw fel cenhadwr cyntaf achos Crist. Y cwestiwn sy'n codi yw: – **Pwy ydan ni wedi dod ag ef neu hi at Iesu?**

**A bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth ichwi arfer eich ffydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith. Rhufeiniaid 15: 13**



Rosllannerchrugog, dan arweiniad Geraint Roberts. Mwynhawyd amrywiaeth o gerddoriaeth a chafwyd anerchiad arbennig gan ein gwestai Dr Prydwen Elfed Owens, am hanes yr achos yma ym Mhrestatyn ac am ein gobaith at y dyfodol.

**COFION**
Anfonwn ein cofion at ein holl aelodau sydd mewn gwaeledd; mawr yw ein gwerthfawrogiad o'ch ffyddlondeb a'ch dylanwad arnom.

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i Hannah, wyres Beryl, ar ennill ei gradd ym Mhrifysgol Lerpwl. Mae Hannah yn gyn-aelod o'r Ysgol Sul ac rydym yn mwynhau ei chwmni yn yr oedfaon pan ddaw adref ar wyliau. Pob dymuniad da i ti at y dyfodol, Hannah. Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Claire Rowe sydd wedi llwyddo yn ei hyfforddiant fel athrawes. Bu Claire yn gweithio i'r Heddlu am rai blynyddoedd cyn penderfynu newid gyrfa. Pob llwyddiant i Claire yn ei swydd newydd yn Ysgol Gynradd Bodnant.

**GWELLHAD**
Mae'n braf cael dweud fod Lili yn llawer gwell ar ôl triniaeth yn Ysbyty Alder Hey. Bu yno am dros naw wythnos, a hithau'n ddim ond dwyflwydd oed.

**CROESO**



*Casi Efa a'i brawd mawr Noa*



*Palmer Roy*

Croeso i Casi Efa, a anwyd ddechrau mis Mehefin. Merch fach i Liam a Manon yw hi a chwaer i Noa. Croeso hefyd i Palmer Roy,



*Amelia a Rachel yng nghwmni Dafydd Iwan yn ddiweddar*

mab bach Laura a Paul, a anwyd ddiwedd mis Awst. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau deulu a phob bendith.

Rydym yn llawenhau o gael eich cwmni chi i gyd yn yr oedfaon.

**CROESAWU NESTIA**
Cawsom gwmni Nestia, merch fach 9 oed o Belarus yn yr Ysgol Sul am bedair wythnos. Daeth Nestia i aros gyda theulu'r Rowe – Geraint, Claire, Gethin a Carys – fel rhan o elusen Plant Chernobyl ym Mhrydain. Er nad oedd yn deall Saesneg na Chymraeg, roedd yn hyfryd gweld gwên ar ei hwyneb wrth iddi chwarae gyda'r plant. Aeth Nestia adref gyda rhoddion o ddillad newydd gan yr Ysgol Sul. Diolch i bawb am eu haelioni.

**CODI ARIAN AT JMA**
Trefnwyd stondin gacennau gan yr Ysgol Sul tuag at JMA. (Gweler y llun ar dudalen 16).

*Gohebydd – Gwenda Humphries*

## Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**ORGANYDDION**
Rydym yn falch iawn fod Jane wedi gwella'n ddigon da i fod yn ôl wrth yr organ yn dilyn ei hanffawd. Diolch o waelod calon i Arfon Williams, Eglwys Pensarn, am ein helpu allan yn ystod absenoldeb Jane.

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i Mia a Hannah am wneud mor dda yn yr arholiadau TGAU a hynny flwyddyn o flaen eu hamser. Daliwch ati a hwyl eto y tymor nesaf.

*Gohebydd – Eirian Jones*

## Bethel, Rhiwbeina

**Y GYNULLEIDFA YM METHEL**
Ar ôl seibiant yn ystod mis Awst daethom yn ôl i gyd-addoli ar 3 Medi. Rydym yn cofio yn ein gweddïau am y rhai o'n plith sydd mewn gwaeledd.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn ag Ann Brain a'r teulu ar golli ei brawd, yr actor adnabyddus, Robin Griffith, yn sydyn ac annisgwyl yn ei gartref yn Llangoed, Sir Fôn.

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i Carol a Tony Davies wrth iddynt ddathlu eu priodas ruddem.

**DYMUNIADAU GORAU**
Dymunwn yn dda i Carwyn Gage wrth iddo gychwyn ar ei yrfa yn y fyddin ym mis Medi.

*Gohebydd – Gwilym E Roberts*

**ARDAL DE GWYNEDD**
Yn y Tabernacl, Penrhyndeudraeth ar nos Sul Awst 13, cynhaliwyd oedfa o ddiolchgarwch i gydnabod gweinidogaeth y Parchedig Gwyn C. Thomas, a wasanaethodd yr Ardal am gyfnod o 27 mlynedd. Daeth cynrychiolaeth deilwng ynghyd, yn cynnwys aelodau De Gwynedd a chyfeillion o'r enwadau eraill, a phob un yn tystiolaethu i yrfa glodwiw Mr Thomas fel gweinidog ac arweinydd. Llywyddwyd gan y Diacon Stephen Roe. Ymatebodd Mr Thomas yn ei ffordd ddihafal a hwyliog, gan ddwyn i gof rai pethau doniol a ddigwyddodd iddo yn ei gyfnod fel gweinidog a chan ddiolch am bob cefnogaeth a charedigrwydd tuag ato. Cyflwynwyd tysteb iddo ar ran aelodau Ardal De Gwynedd, ynghyd â darlun tirlun hardd wedi ei fframio gan Mrs Nerys Roberts ar ran chwiorydd y Tabernacl. Cyfeiliwyd gan Mrs Meinir Ll. Jones a mwynhawyd gwledd o ddanteithion ysgafn ar ddiwedd yr oedfa trwy garedigrwydd chwiorydd y Tabernacl.

*Gohebydd – W. Arvon Roberts*

Ffion – posib cael rhywbeth i fan hyn? ...........

# CAPEL NI
YN EGLWYS IESU

## Shiloh, Tregarth

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i Eirwen a Wynn Williams, Tyddyn Dicwm, a ddathlodd eu priodas ddiemwnt ym mis Gorffennaf. Mae'n hynod braf cael croesawu Eirwen yn ôl atom wedi iddi dreulio wythnosau yn yr ysbyty.

**BEDYDDIADAU**
Dan ofal ein cyn-weinidog y Parchedig Philip Barnett, bedyddiwyd brawd a chwaer ar 30 Gorffennaf, sef Elenid Glyn a Deio Glyn Bracegirdle, dau o blant bach Llinos Wyn ac Owen Glyn Bracegirdle, Llanrug. Mae Llinos yn ferch i Meinir ac Arwel Edwards, Tir Tegla. Yna ar 6 Awst, bedyddiwyd Alaw Modlen, merch fach Bleddyn Hedd a Siân Angharad, Bethesda. Mae Bleddyn yn fab i Angharad a Gerallt Williams a bu'n aelod o Ysgol Sul Shiloh. Pob dymuniad da i'r plant a'u teuluoedd.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Valerie a David Ellis Jones, Glan Gors, ym marwolaeth ewythr Valerie yn ystod mis Gorffennaf.

**COLLI CYFAILL**
Teimlwn y golled yn fawr yn Shiloh wedi marwolaeth Tom Gwyn Jones, Rhiwlas. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf at Carol, Caren a'r holl deulu yn eu galar a chofiwn am garedigrwydd, consyrn ac anwyldeb Gwyn tuag atom.

*Gohebydd – Gwenda Davies*

## Salem, Ty'n Lôn

**ER COF**
Roedd Mr Merfyn Jones yn golygu llawer iawn i gynulleidfa Salem, Ty'n Lôn, ac roeddem yn ddiolchgar o'r rhodd a gawsom er cof amdano. Mae'r arian wedi mynd at bobl Nicaragua, drwy law Cymorth Cristnogol. Roeddem eisiau rhywbeth yn y capel ei hun i gofio am ein gweinidog. Dyma'r lectyrn hardd wnaed



gan Alun Williams, Pontllyfni. Wrth syllu ar y geiriau yn ystod oedfa, mae'n braf dwyn i gof gyfeillgarwch a gofal Merfyn drosom.

*Gohebydd – Angharad Tomos*

## Ebeneser, Eglwysbach

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i Siriol Hughes, Tu Hwnt i'r Fawnog, Maenan, ar ennill gradd B. A. gydag anrhydedd mewn Dylunio 3D ym Mhrifysgol Metropolitan Manceinion. Enillodd Siriol wobr yn New Designers, Llundain ac mae ei gwaith yn cael ei arddangos ar hyn o bryd yn Oriel Mint. Pob hwyl ar dy daith i Hong Kong a'r profiad gwaith yng nghwmni Innermost. Llongyfarchiadau hefyd i Brenig Hughes ar ei lwyddiant yn yr arholiadau TGAU yn ddiweddar.

*Gohebydd – Charles Crapper*

## Ebeneser, Dolgellau

**CYMORTH CRISTNOGOL**
Cynhaliwyd cyfarfod Cymorth Cristnogol yn Ebeneser a chawsom ein hannerch a'n hannog gan Llinos o'r Gymdeithas. Bu'n wythnos lwyddiannus o gasglu yn y dref a'r cyfanswm oedd £2,150.53. Diolch i bawb.

**PAENTIO**
Dros yr wythnosau diwethaf mae tu allan y Capel wedi cael ei baentio ac mae'n edrych yn hardd, ar ei newydd wedd.

**RHODD**
Derbyniwyd a bendithiwyd Desg Ddarllen, rhodd gan Ruth Nichols er cof am ei chwaer, Jessie Nichols a fu'n aelod selog yn y gwasanaethau Saesneg.

**BLAENORIAID**
Mewn Cyfarfod Eglwys cydsyniodd Mary Davies, Menna Jones, Angela Roe ac Alison Woodbridge i fod yn flaenoriaid. Diolch am eich parodrwydd i wasanaethu.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchwn Alan ac Alison Woodbridge ar enedigaeth wyres fach arall yn ddiweddar sef Amelia Carys, merch i Caleb a Beth.

**CROESO**
Bu'r capel yn agored ar gyfer ymwelwyr dros ŵyl y Banc, lle caent sgwrs a phaned os dymunent.

*Gohebydd – Gwyneth Meredith*


CYTÛN – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru

**Diwygiad Protestannaidd 500**




**DYDD MAWRTH, 31 HYDREF 2017**

**Gwasanaeth Coffa ac Ymrwymiad Cenedlaethol Cymru am 11.00am**
Eglwys Gadeiriol Gatholig Fetropolitan Dewi Sant,
38 Charles Street, Caerdydd CF10 2SF

**Lluniaeth ysgafn am 12.00**
Cornerstone, CF10 2GA (gyferbyn â'r Gadeirlan)

**Darlith Goffa Gethin Abraham-Williams am 14.00**
**'Catholigrwydd Protestaniaeth: etifeddiaeth y Diwygiad yn yr unfed ganrif ar hugain' –** Yr Athro Densil Morgan
Cornerstone, CF10 2GA (gyferbyn â'r Gadeirlan) (Traddodir y ddarlith yn Saesneg)

CROESO CYNNES I BAWB
**Bydd angen tocyn arnoch ar gyfer y cinio**
***Os ydych am aros i'r cinio bwffe ysgafn, cysylltwch os gwelwch yn dda â***
SASHA PERRIAM, CYTÛN, 58 HEOL RICHMOND, CAERDYDD CF24 3AT
Ffôn: 02920 464204 • post@cytun.cymru


## RHODDION

Diolchwn yn gynnes unwaith eto am y rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd*.

| | |
|---|---|
| Dienw | £40-00 |
| Dienw | £50-00 |
| Mrs Iola Evans, Croesoswallt | £10-00 |
| Mr B R Hughes, Lerpwl | £25-00 |
| Er cof am y diweddar Gwilym E. Roberts, Abergele | £50-00 |
| Mrs M G Thomas Penmachno | £10-00 |
| Mrs O M Whomsley, Aberhonddu | £30-00 |
| **Cyfanswm** | **£215-00** |

**I sylw pawb sy'n talu'r lleiafswm o £4 am gopi unigol drwy'r post, sef costau postio. MAE HWN YN DALADWY AM ELENI, ERBYN DIWEDD TACHWEDD FAN HWYRAF, ONI THALWYD EISOES. Nid yw hyn yn berthnasol i'r rhai sy'n gweithio i Synod Cymru neu sy'n cyfrannu erthyglau, ond MAE I BAWB ARALL!!Sieciau yn daladwy i 'Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru', i'w hanfon at Robin os gwelwch yn dda.**

# DATBLYGU EIN GALWAD – EFENGYLU

gan Delyth Wyn Davies

Thema eleni yn rhaglen Datblygu Ein Galwad yw Efengylu, y bedwaredd thema i ni ei dilyn.

O'r pedair thema efallai mai efengylu yw'r un sy'n ysgogi'r ystod ehangaf o deimladau. Rhai yn teimlo gwefr a chyffro wrth feddwl am rannu ffydd ag eraill ond ambell un o bosib yn teimlo'n rhy ofnus hyd yn oed i feddwl am y peth! Ond y gwir yw bod yr ystod eang o ymatebion i'r pwnc yn arwydd ynddo'i hun bod sawl ffordd o ddehongli'r gair efengylu – ac efallai nad yw ein dehongliad arbennig ni ond megis rhan fechan o holl ystod ystyr y gair. Yn syml, **ystyr efengylu yw rhannu'r newyddion da am Iesu Grist a'i gariad** mewn gair a gweithred, hynny yw, rhannu stori Iesu a stori Duw ar waith yn ein bywydau, a gellir gwneud hyn mewn amryw o ffyrdd fel unigolion, cynulleidfaoedd ac ardaloedd.

Yr hyn sy'n amlwg yw nad un ffordd yn unig sydd o efengylu ac mai cyfuniad o nifer o ffyrdd o genhadu sydd yn dwyn pobl at Iesu. Yr hyn sydd fwyaf effeithiol yw gweithredu yn y gymuned yn ogystal â chynnal gweithgareddau penodol ar gyfer efengylu. Mae angen meithrin perthynas, lle mae gweithredoedd o gariad a gofal i'w gweld ar waith. Meddyliwch pa ddylanwadau fu arnoch chi fel unigolyn wrth i chi ddod i ddilyn Iesu. Pa wersi allwch chi eu dysgu o hynny? Oes yna her i chi a'ch capel o'ch stori chi?

Mae amryw o ffyrdd traddodiadol o roi'r thema hon ar waith fel capeli, sef cynnal cyfarfodydd, cyrsiau a gweithgareddau penodol ar gyfer efengylu. At hynny, mae posibiliadau gyda chynlluniau fel Llan Llanast ac Agor y Llyfr, a chynlluniau cymdeithasol fel Banciau Bwyd, Bugeiliaid y Stryd, gwaith gyda'r henoed, y digartref, y di-waith, pobl gyda dementia, a theuluoedd difreintiedig. Gallwn agor drysau'r capel i ymwelwyr ar ddyddiau penodol, gan greu arddangosfa, darparu gweithgaredd megis llwybr/gorsafoedd gweddi ac, wrth gwrs, cynnig paned a chroeso. Mae ein hiaith a'n diwylliant yn agor drysau hefyd, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n dysgu Cymraeg ac yn awyddus i gael cyfle i sgwrsio.

Mae angen meddwl sut y gallwn ddefnyddio ein hadnoddau, yn adeiladau a phobl, i wasanaethu'r gymuned a'i hanghenion. Ein braint yw cael cyd-fyw â phobl gan rannu ein stori a gwneud gwahaniaeth i'w stori nhw. Yr adnodd gorau sydd gennym yw ni ein hunain a'n parodrwydd i rannu ein stori.

**Efengylu – rhestr o adnoddau defnyddiol**

Ffilmiau:

*Efengylu* - ffilm Gymraeg am rannu ffydd (Tellshow be, Yr Eglwys Fethodistaidd)

*Talking* Jesus - ffilm am rannu ffydd trwy sgwrsio (www.talkingjesus.org)

Ffilmiau *Cwestiwn* – DVD gyda chyflwyniad 6 rhan i'r ffydd Gristnogol (Cyhoeddiadau'r Gair)

*3,2,1 – Duw, Iesu a ti* - ffilm yn cyflwyno'r ffydd Gristnogol i bobl ifanc (beibl.net)

*Platiau'n cwympo* - ffilm yn cyflwyno'r ffydd Gristnogol i bobl ifanc (beibl.net)

**Adnoddau eraill**

Cyfres adnoddau *Exploring Evangelism* gan gynnwys *Tell Show Be Discussion Guide*(Yr Eglwys Fethodistaidd)

*Time to Talk of God* – Arweiniad i sgwrsio fel sail i efengylu (Yr Eglwys Fethodistaidd)

*Datgelu* – adnoddau i helpu pobl ifanc i gyflwyno'r ffydd (UCCF)

*42 - 42 Diwrnod i Fynd i'r Afael a Dilyn Iesu... ac Yna ei Basio Ymlaen* (Cyhoeddiadau'r Gair)

*Arwyr Ancora* - ap Beiblaidd i blant 7-13 oed i'w lawrlwytho am ddim (Scripture Union)

*Stori Duw mewn llaw* – cardiau post yn esbonio'r efengyl i blant (Scripture Union Cymru)

Adnoddau Cymraeg *Y 4 Pwynt* -tractiau, breichledau, crysau-T, sticeri car (the4points.com)

Llyfrynnau bugeiliol *Ym meddwl amdanoch* (Galar a Gwaeledd), *Wele, cawsom y Meseia* (Nadolig), *Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw* (Pasg) (Cyhoeddiadau'r Gair)

Cylchgrawn *Holi*, Mudiad Efengylaidd Cymru

*Cristion* – bydd rhifyn tymor Nadolig 2017 yn rhifyn arbennig wedi ei baratoi'n benodol ar gyfer rhannu newyddion da y Nadolig Cristnogol. Bydd modd i eglwysi brynu pecynnau i'w dosbarthu am ddim ymysg aelodau a phobl yn y gymuned fel ffordd o rannu newyddion da y Nadolig. Gellid hefyd ei ddefnyddio i wahodd pobl i ymuno yn eich Gwasanaethau Nadolig.

**Cyrsiau**

*Talking of God* – cwrs 4 sesiwn ar rannu ffydd (Yr Eglwys Fethodistaidd)

*Cwrs Alffa* (Cyngor Ysgolion Sul)

*Darganfod Cristnogaeth* (Gwasg Bryntirion)

*Cwestiwn* - cyfres o ffilmiau a llyfryn trafod (Cyhoeddiadau'r Gair)

*Torri Syched* – cyfres o ffilmiau a llyfryn trafod (Cyhoeddiadau'r Gair)

Ceir adran gyfan ar wefan yr Eglwys Fethodistaidd yn cynnwys adnoddau, hanesion pobl a deunydd diwinyddol: http://www.methodist.org.uk/deepening-discipleship/evangelism

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Delyth Wyn Davies, Swyddog Dysgu a Datblygu:

daviesd@methodistchurch.org.uk

# COFIO WILLIAM MATHIAS

## (1934-1992)

gan Gareth Blainey

Roedd yn chwith sylweddoli ychydig fisoedd yn ôl fod chwarter canrif ers marwolaeth un o'r ffigurau pwysicaf yn hanes cerddoriaeth Cymru. Ar 29 Gorffennaf 1992 bu farw William Mathias ar ôl brwydro am dair blynedd yn erbyn canser. Cofir Mathias yn bennaf fel cyfansoddwr ond ar ben hynny bu'n bennaeth Adran Gerddoriaeth Coleg Brifysgol Gogledd Cymru ym Mangor o 1970 tan 1988 a sylfaenodd ŵyl Gerdd Gogledd Cymru yn Llanelwy yn 1972. Yn 1999 sefydlwyd Canolfan Gerdd William Mathias yng Nghaernarfon sydd wedi mynd o nerth i nerth ers hynny. Yn ôl gwefan y ganolfan 'erbyn hyn mae tîm o 44 tiwtor yn cynnig hyfforddiant unigol ac mewn grŵp i dros 400 o bobl o 6 mis i 80+ oed, yn wythnosol yn y Ganolfan yng Nghaernarfon a Dinbych'.

Roedd enwi canolfan ar ei ôl yn arwydd o barch mawr i'r gŵr aned yn Hendy-gwyn ar Daf a gwelwyd arwydd arall o'r parch mawr hwnnw yn wythnos olaf Gorffennaf. Mathias oedd 'Cyfansoddwr Yr Wythnos' ar BBC Radio 3 a darlledwyd pum rhaglen awr o hyd roddodd sylw i'w fywyd a'i gerddoriaeth. Ymhob un o'r pump holodd y cyflwynydd Donald Macleod ferch Mathias, Rhiannon, a'r cyfansoddwr Geraint Lewis oedd yn gyfaill ac yn gydweithiwr iddo ym Mangor. Clywyd trawstoriad o waith Mathias yn ystod y rhaglenni, yn cynnwys ei Gonsierto i'r Delyn luniwyd yn 1970 ac sy'n dyfynnu rhan o alaw'r gân werin 'Dadl Dau' yn ei symudiad olaf a'i anthem i gôr ac organ "Let the people praise Thee, O God" gyfansoddwyd ar gyfer priodas Tywysog a Thywysoges Cymru yn 1981.

Clywyd nifer o'i gyfansoddiadau corawl eraill ar nos Wener wythnos Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn eleni. Dewisodd pedwar o'r wyth côr yn y gystadleuaeth i gorau cymysg heb fod yn llai nag 20 mewn nifer ddarnau gan Mathias. Canodd Côr Capel Cymreig Y Boro Llundain 'Ad Majorem Dei Gloriam' (Bendigedig Fyddo Enw'r Iôr); perfformiodd Côr Dre o Gaernarfon 'Hodie' (Hwn Yw'r Dydd) ; canodd CODA o Ynys Môn (ddaeth yn drydydd yn y gystadleuaeth) 'Alleluya Psallat' ( Haleliwia, Cenwch); a threfniant o gân werin 'Y Gelynnen' oedd un o ddewisiadau'r côr buddugol - Côr CF1 o Gaerdydd.

Buasai Mathias wedi bod ar ben ei ddigon o gofio ei fod o'n cytuno gyda barn cyfansoddwr arall, Benjamin Britten, a ddywedodd: 'dylsai cyfansoddwyr fod yn ddefnyddiol'.

# Adolygu Bywyd Synod a Chylchdaith Cymru

## –Y Diweddaraf

gan y Parchedig
Ddr Jennie Hurd

Yn y Synod yn Aberystwyth yn 2016 cytunwyd i gynnal adolygiad o fywyd Synod a Chylchdaith Cymru o dan arweiniad y Pwyllgor Gwaith er mwyn ceisio ewyllys a galwad Duw ar ein cyfer at y dyfodol. Cynhaliwyd adolygiad i geisio barn unigolion, eglwysi ac ardaloedd yn ystod 2016-17; fe welsom wrth ddadansoddi'r atebion fod chwe phrif thema yn dod i'r amlwg. Credwn mai dyma'r themâu y mae Duw yn ein galw i ganolbwyntio arnynt, wrth inni barhau i geisio ei ffordd ymlaen fel Synod/Cylchdaith Cymru. Derbyniwyd hyn yng nghyfarfod y Synod yn Wrecsam yn Ebrill 2017 a chytunwyd i sefydlu chwe grŵp bach i weithio ar y chwe thema, gyda'r bwriad o dderbyn argymhellion pellach gan y grwpiau hyn yng nghyfarfod y Synod yn 2018, am sut i ddatblygu bywyd y Synod/Cylchdaith o dan y themâu. Gofynnwyd i'r rhai oedd â diddordeb mewn un (neu fwy) o'r themâu gysylltu â'r Person Cyswllt priodol erbyn 10 Gorffennaf, i'r enwau gael eu rhoi i Bwyllgor Polisi Gorffennaf 2017 er mwyn symud ymlaen. Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith y dylid cael o leiaf 3-4 i bob grŵp ac y buasai'r Pwyllgor Polisi yn penderfynu ar y camau nesaf yn achos y grwpiau lle nad oedd digon o enwau.

I'ch atgoffa dyma'r grwpiau a chynullydd pob un:

Bywyd ysbrydol (Delyth Wyn Davies); Gwaith gyda phlant/teuluoedd (Jon Miller); Iaith - dwyieithrwydd/dysgwyr (Stephen Roe); Estyn allan i'r gymuned (Maryl Rees); Cyfathrebu (Ffion Rowlinson); Cydweithio (yn ecwmenaidd, Eglwys Fethodistaidd ac fel Synod/Cylchdaith) (Ian Morris)

Canlyniad y broses hon oedd mai un enw yn unig a ddaeth i law yn achos pob un o'r grwpiau hyn. Felly nid oedd hi'n bosibl sefydlu yr un o'r grwpiau a bu'n rhaid i'r Pwyllgor Polisi ystyried hyn yn ddifrifol yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf gan geisio ewyllys ac arweiniad Duw ynghylch y ffordd ymlaen. Gofynnwyd tri chwestiwn:

Yn gyntaf, sut rydych chi'n ymateb i'r hyn rydych newydd ei glywed? (teimladau, rhesymau, goblygiadau). Yn ail, beth ydych chi'n meddwl y mae Duw yn ei ddweud wrthym am hyn, ac am y chwe thema? Yn drydydd, beth yw eich barn ar sut ddylem symud ymlaen? Beth yw'r camau nesaf?

Mewn sgwrs hir a dwfn, mynegodd aelodau'r Pwyllgor Polisi nifer o bwyntiau, yn cynnwys eu siom, eu rhwystredigaeth oherwydd problemau cyfathrebu, eu consyrn am ddifaterwch, eu cwestiynau am ddyfodol y Synod a'r Gylchdaith ac a oes yna awydd i fynd ymlaen. Cynigwyd i'r mater fynd yn ôl i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi er mwyn paratoi cynnig am ffordd ymlaen i'w roi gerbron y Pwyllgor Polisi nesaf ym mis Tachwedd. Cydsyniwyd â hyn. Boed i Dduw roi doethineb a dewrder i bawb wrth i ni ystyried dyfodol Synod a Chylchdaith Cymru.

# Atgofion Organydd Amlosgfa Bangor

gan D. Wynn Williams



Ni ddychmygais wedi ymddeol o fod yn brifathro yn Ynys Môn yn 1992 y buaswn yn treulio mwy o flynyddoedd gwaith yn Amlosgfa Bangor nag a wneuthum yn fy nhair swydd flaenorol fel bancer, siopwr/is-bostfeistr ac athro.

Prin ddyddiau ar ôl ymddeol, cefais alwad ffôn gan reolwr yr Amlosgfa, i fod yn un o'r panel organyddion – nid oedd yn syndod mawr gan imi fod yn ddirprwy i Trefor Jones (Twrgwyn) pan âi ar ei wyliau yn ystod mis Awst a minnau ar wyliau o'r ysgol.

Pryd hynny, tri ohonom rannai'r swydd – wythnos yr un – ond ymhen ychydig penderfynodd y swyddogion, oherwydd pwysau gwaith a dyletswyddau ychwanegol, drosglwyddo'r cyfrifoldeb o sicrhau organydd i'r ymgymerwyr. Teg yw dweud nad achosodd hyn unrhyw ddrwgdeimlad ymhlith y tri ohonom a byddem yn helpu ein gilydd yn ôl y galw a chyflenwi cerddoriaeth i'r naill a'r llall.

Yn raddol deuthum yn brysurach ac ar alw i hyd at ugain o ymgymerwyr. Cefais y fraint a'r pleser o ddod i'w hadnabod yn dda a phrofi llawer o garedigrwydd a chyfeillgarwch. Mae atgof am un, sef y diweddar Myrddyn Pritchard, Llanberis, yn aros yn y cof am iddo erioed adael yr Amlosgfa heb ddod i ddiolch i mi am fy ngwasanaeth. Dyna ŵr bonheddig os bu un erioed. O wylio ymgymerwyr wrth eu gwaith, mae rhywun yn rhyfeddu at eu gallu i gyfuno urddas a chydymdeimlad a threfn wrth gynnal angladd, a hyn wrth ymwneud â sawl cynhebrwng mewn wythnos.

Wedyn, dyna'r holl weinidogion, ficeriaid, curadiaid, offeiriaid a dyneiddwyr y cefais gydweithio â hwy. Dros y blynyddoedd cefais brofiadau melys ac ysgytwol, clywais sawl teyrnged wych a rhai i'r gwrthwyneb a do! – cafwyd ambell i dro trwstan. Mae gan rai offeiriaid y ddawn i gyfuno'r lleddf a'r llon er mwyn ysgafnhau'r straen ar y teulu. Ond mae pethau annisgwyl yn gallu digwydd – fel yr amser y pwysodd y gweinidog y botwm anghywir ar ddechrau'r ddefod a danfon yr arch i lawr. Golygai hyn i'r ymgymerwr orfod rhedeg i lawr y grisiau cefn i'w yrru i fyny'n ôl. Diolch na ddigwyddodd yr un peth ag a welwyd yn rhywle yn Lloegr, pan ddaeth dwy gwpanaid o de poeth i fyny hefyd.

Tuedda'r Catholigion i fod yn fwy ffraeth na'r gweddill. Bûm mewn angladd lle roedd y Tad yn cynnal gwasanaeth i hen forwr o Wyddel, a neb yn bresennol yn alarwyr ond tri o'i hen griw. Wedi taenellu'r dŵr sanctaidd, aeth ati i sôn am yr ymadawedig a'i atgofion o rannu sawl potel o win efo'r hen lanc, gan ei ganmol fel dyn da ac eithrio ambell sgarmes yn ei ddiod.

Wrth gwrs, yno i gyfeilio roeddwn i ac yn sicr fe welais newidiadau sylweddol yn nhreigl y blynyddoedd. I raddau helaeth mae safon canu cynulleidfaol wedi dirywio. Heblaw am ambell i griw Cymraeg o Fôn neu Ben Llŷn, ni chlywir canu pedwar llais mwyach. Mewn sawl angladd ni wyddant y geiriau na'r dôn. Heblaw am 'Calon lân', 'Mi glywaf dyner lais', 'Arglwydd gad im dawel orffwys', 'Un fendith dyro im' yn Gymraeg neu 'The Lord's my Shepherd', 'Abide with me', 'All things bright and beautiful' a 'Jerusalem' yn Saesneg, ni chlywir nemor ddim arall.

Cyn dyfodiad y CD, cyfrifoldeb yr organydd oedd cyflenwi cerddoriaeth addas i osod naws grefyddol, ac yn naturiol miwsig rhai fel Bach, Handel a Mozart a glywid yn gyson. Erbyn i mi ymddeol, rhai fel Sinatra, Witney Houston ac Eva Cassidy a ddewisid gan lawer, yn arbennig y Saeson, gyda John ac Alun neu Dafydd Iwan gan y Cymry. Tybed ymhen deng mlynedd, fydd yna emynau o gwbl yn cael eu canu? Amser a ddengys!

Mae gennyf atgofion pleserus iawn o'm cyfnod yno, gan wneud llu o ffrindiau. Pan af yn ôl yn achlysurol i'w gweld, caf yr un croeso ag a gefais pan yn gweithio yno. Yn ffodus, rwy'n byw prin dair milltir o'r lle; mae fy nghwpan yn parhau yng nghwpwrdd cegin yr Amlosgfa ac yno y bydd hi, gobeithio, tra bydda i.



# CROESAWU EIN FFRINDIAU O JAMAICA

gan Owain Morgan








Nôl ym mis Gorffennaf y llynedd, fe es i ac wyth arall allan i Jamaica am bythefnos ar Daith Gyfnewid Synod Cymru a Wales Synod. Wel, ar ddechrau mis Awst eleni, daeth criw o naw o bobl ifanc a dwy arweinydd yma i Gymru ar ail ran y daith.

Wedi taith hir o Kingston, cyrhaeddodd y grŵp faes awyr Gatwick i ddarganfod un peth pwysig – mae hi'n oer yma! Buaswn yn hoffi dweud eu bod wedi dod i arfer â'r tywydd, ond byddai hynny'n gelwydd! Er y tywydd 'oer', yn fuan cyrhaeddsant Fferm Ymddiriedolaeth Amelia yn y Barri, a chael cyfle i weld un o brif ddiwydiannau Cymru sef amaethyddiaeth. Buan iawn yr aeth yr wythnos gyntaf heibio, gyda'r grŵp yn cael gweld golygfeydd y brifddinas, y Bae a'r Senedd, heb sôn am IKEA!

Cafwyd amser da yn y De gyda nifer o ymweliadau ag eglwysi'r ardal a chyfle i gwrdd â phobl leol gan hybu pwrpas y prosiect cyfnewid. Wedyn aeth y grŵp ychydig mwy i'r gogledd, i Westy Llyn Abernant yn Llanwrtyd. Yma fe gynhaliwyd gwersyll cyntaf Momentwm, sef enw newydd gwaith Ieuenctid Methodistaidd Cymru dros y ddwy Synod. Cafwyd amser arbennig iawn gyda ffrindiau hen a newydd yn treulio amser yn myfyrio gyda'i gilydd ac yn gwneud gweithgareddau awyr agored. Mae gwersylloedd yn rhan bwysig o waith ieuenctid Jamaica ac felly wrth drefnu'r daith ar eu cyfer fe gododd y syniad o gynnal gwersyll yma yng Nghymru. Ar sail eleni, mae gobeithion uchel am y flwyddyn nesaf.

Wedi'r gwersyll, cafodd y bws mini a'r car cymorth eu llenwi â bagiau unwaith eto, y tro yma ar gyfer y daith i Aberystwyth. Mae'n rhaid fel arweinwyr ein bod yn gweithio i fwrdd twristiaeth Aberystwyth gan fod pob un o'n hymwelwyr wedi syrthio mewn cariad â'r dref! Er bod y nosweithiau wedi'u treulio'n cysgu ar lawr Eglwys St Paul, fe wnaeth y grŵp fwynhau dysgu rhywfaint o Gymraeg, dawnsio gwerin a hefyd mynd ar drên bach Consti. Yn wir, cymaint y mwynhaodd un o'r bechgyn fel ei fod yn ystyried astudio yma yng Nghymru – canmoliaeth fawr!

Y diwrnod wedyn, cafodd y criw gyfle i ymarfer eu Cymraeg ar faes yr Eisteddfod ym Modedern. Cawsant flas o ddiwydiant y Cymry ac mae'n rhaid dweud eu bod wedi mwynhau yn arw iawn, gan fod yn rhan o gyflwyniad ym mhabell Cytûn a hefyd ymweld â Chymorth Cristnogol a Byd Mari Jones ymhlith pethau eraill.

Cyn ffarwelio â Chymru, bu'r ymwelwyr yn aros gyda theuluoedd yn ardal Bangor a mwynhau un o uchafbwyntiau'r daith sef gweld castell. Roedd ganddynt ddiddordeb mawr yn hanes Castell Biwmares a chawsant eu tywys hefyd i weld Llanfair PG, lle cafwyd llawer o hwyl yn recordio fy llais yn dweud yr enw llawn!

A dyna hi, wedi pythefnos prysur ledled Cymru, roedd yn amser mynd yn ôl i Lundain, lle cafwyd diwrnod arbennig yn mwynhau golygfeydd y ddinas fawr. Bu'n bythefnos diddorol gyda nifer o newidiadau munud olaf. Fe gymerodd pob un o'r rhai aeth allan i Jamaica ran mewn rhyw ffordd. Y peth pwysicaf oedd ein bod wedi creu perthnasau oes, a phwy ac ŵyr hefyd na welwn un o'n cyfeillion yn dod i Gymru i astudio!

# TUDALEN Y PLANT





## Diolchgarwch

Diolch i Ti am y byd,
Diolch am ein bwyd bob pryd,
Diolch am yr haul a'r glaw,
Diolch Dduw am bopeth ddaw.
Amen.

Bu Ysgol Sul Bethel, Prestatyn wrthi'n brysur yn codi arian at Genhadaeth yr Ifanc i Bawb (JMA) drwy werthu cacennau. Iym, iym, genod!!

Mae 12 gwahaniaeth rhwng y ddau lun o'r jiraff yn cael dail i'w bwyta o'r goeden uchel. Beth ydyn nhw?

